



## **Dadbacio eiddo carcharorion: Ffynhonnell gudd o wrthdaro a chwynion**

Papur prif ganfyddiadau gan Brif Arolygydd Carchardai EF

Chwefror 2026

# Cynnwys

Cyflwyniad .....	3
Section 1 Cefndir .....	4
Section 2 Canfyddiadau allweddol Arolygiaeth Carchardai EF .....	8
Appendix I Methodoleg .....	15
Appendix II Cyfeiriadau .....	16

# Cyflwyniad

Ar ein hymweliadau â charchardai, un o'r cwynion mwyaf cyffredin gan garcharorion yw eu rhwystredigaeth o beidio â gallu cael gafael ar eu heiddo. Ar ôl trosglwyddo i garchar newydd, yn aml mae oedi hir wrth gael eiddo allan o'r storfa ac yn aml mae'n ymddangos bod gwahanol garchardai'n dehongli'r rheolau'n wahanol ynglŷn â'r hyn a ganiateir. Mae gallu cael mynediad at ffotograffau neu gardiau gan deulu a ffrindiau yn bwysig iawn i garcharorion yn ogystal ag, yn fwy ymarferol, gallu cael dillad, esgidiau a llyfrau. Mae'n ymddangos bod rhai carchardai'n gallu prosesu eiddo'n gyflym ac yn effeithlon tra bod eraill yn aml yn colli eitemau neu mae oedi hir cyn y gellir ei gael allan o'r storfa.

Mae'r papur byr hwn yn egluro'r rheolau a'r disgwyliadau ar gyfer eiddo ac yn nodi meysydd lle mae pethau'n aml yn ymddangos fel petaent yn mynd o chwith.

## **Charlie Taylor**

Prif Arolygydd Carchardai  
Ionawr 2026

## Section 1 Cefndir

- 1.1 Pan fydd rhywun yn cyrraedd y carchar, mae staff y dderbynfa yn cofnodi'r holl eiddo personol y mae'r carcharor yn eu dwyn gydag ef, gan gynnwys y dillad a'r esgidiau y mae'n eu gwisgo. Am gyfnod eu hamser yn y carchar, bydd yr eiddo hwn yn cael ei reoli yn unol â Fframwaith Polisi Eiddo Carcharorion 2022 Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS).
- 1.2 Mae'r polisi'n nodi, os caiff rheolau eu cymhwyso'n deg a bod eiddo'n cael ei reoli'n ofalus, y dylai carcharorion deimlo eu bod yn cael eu parchu a chanfod awdurdod fel rhywbeth dilys, a thrwy hynny leihau'r tebygolrwydd y byddant yn camymddwyn neu'n dod yn dreisgar.

Gall y ffordd y mae HMPPS yn gofalu am eiddo carcharorion fod yn symbol o sut rydym yn gofalu am y bobl yn ein gofal. Mae eiddo carcharor yn debygol o olygu mwy na dim ond beth yw defnydd penodol eitem, neu ei werth ariannol. Gall fod ganddo arwyddocâd personol, yn enwedig i'r rhai yn y carchar sydd ag ychydig yn unig o eiddo. Gall cael eich eiddo eich hun, a chael rhywfaint o ddewis yn eu cylch, alluogi teimladau o ymreolaeth, ac mewn ffordd fach ond arwyddocaol o bosibl alluogi pobl i gael hyd yn oed lle bach eu hunain tra byddant yn y carchar.

Caiff eiddo carcharorion ei reoli'n effeithlon, yn effeithiol, yn gyson a chyda gofal a pharch, gan gydnabod arwyddocâd personol ac emosiynol posibl eitemau.

### **Fframwaith Polisi Eiddo Carcharorion HMPPS 2022**

- 1.3 Mae'r adran hon yn nodi rhai o brif elfennau'r fframwaith.

### **Rheolau meddiant a storio**

- 1.4 Bydd eiddo carcharorion naill ai'n cael eu cadw gan y carcharor, yn cael eu storio yn y carchar, neu'n cael eu storio oddi ar y safle yn y Ganolfan Ddosbarthu Genedlaethol (CDC). Mae polisiâu cenedlaethol yn pennu y bydd eitemau personol gwerthfawr fel ffonau, allweddi a waledi yn cael eu cadw ar y safle, ond nid ym meddiant. Mae hyn yn golygu nad oes gan y carcharor fynediad at yr eiddo hyn ond y dylai allu eu cael yn ôl yn hawdd pan gaiff ei ryddhau.
- 1.5 Mae cynlluniau cymhelliant lleol hefyd yn pennu beth y caniateir i garcharorion ei gadw yn eu cell. Gall eiddo fod yn gymhelliant allweddol i garcharorion ac yn ogystal â'r rhestr leiaf o eitemau y caniateir iddynt eu cael, gall rheolwyr ddewis eitemau ychwanegol i'r rhai ar lefelau safonol ac uwch (neu uwchben) i ysgogi a gwobrwyo ymddygiad da. Mae gan reolwyr ddisgresiwn hefyd mewn perthynas ag arian ac eitemau a dderbynnir drwy'r post ar gyfer carcharorion.

- 1.6 Yn Nisgwyliaidau Arolygiaeth Carchardai EF – y meini prawf yr ydym yn eu defnyddio i arolygu – rydym yn darparu rhestr o ddangosyddion a all ddangos bod carchardai yn storio eiddo yn gywir.

Mae eiddo carcharorion a gedwir yn y storfa yn ddiogel, a gall carcharorion gael mynediad iddo ar gais.

Mae'r dangosyddion canlynol yn disgrifio tystiolaeth a allai ddangos bod y disgwyliad hwn yn cael ei gyflawni, ond nid ydynt yn eithrio ffyrdd eraill o'i gyflawni.

- Gall carcharorion dderbyn parseli yn amodol ar ystyriaethau diogelwch a rheoli cyfaint.
- Mae faint o eiddo a gedwir mewn meddiant ac a storir yn ystyried anghenion unigol.
- Mae'r rhestr o eiddo y caniateir i garcharorion eu cadw yn ddigonol i ddiwallu anghenion y boblogaeth.
- Caiff eiddo gwerthfawr carcharorion ei farcio'n ddiogel fel mater o drefn cyn ei roi.
- Ni chaiff eitemau meddygol, gan gynnwys dannedd gosod, sbectol a chymhorthion clyw, eu tynnu oddi ar garcharorion heb bryderon diogelwch sydd wedi'u profi'n dda.
- Caiff yr holl eiddo ei ddychwelyd i garcharorion ar adeg eu rhyddhau neu eu trosglwyddo.
- Mae carcharorion yn cael iawndal teg am ddillad ac eiddo sy'n cael eu colli neu eu difrodi yn ystod eu cadw yn y storfa.

### **Arolygiaeth Carchardai EF, Disgwyliaidau**

## **Rheolaeth gyfeintiol**

- 1.7 Mae HMPPS yn cyfyngu ar yr eiddo y gall carcharor ei gael naill ai mewn meddiant neu yn y storfa. Gelwir hyn yn rheolaeth gyfeintiol a rhaid i'r swm y gall carcharor ei gael fod yn unol â'r lwfans hwn. Rhaid i eiddo sydd mewn meddiant ac eiddo sydd wedi'i storio ffitio mewn dau focs, gyda rhai eitemau wedi'u heithrio o'r terfyn.

Rhaid i gyfanswm eiddo carcharor, lle mae'n cael ei ddal mewn meddiant neu ei storio, ffitio i mewn i ddau focs rheoli cyfeintiol maint safonol (mae bocs rheoli cyfeintiol yn 70cm x 55cm x 25cm ac mae ganddo bwysau uchaf o 15kg y bocs) ynghyd â hanner bocs rheoli cyfeintiol ar gyfer eitemau traul. Yn ogystal, caniateir yr eitemau canlynol:

- pob papur cyfreithiol
- testunau ac arteffactau crefyddol
- addasiadau rhesymol/cymhorthion anabled
- symiau rhesymol o eitemau sy'n cefnogi carcharorion trawsryweddol i fyw yn y rhyw y maent yn uniaethu ag ef
- eitemau a gedwir mewn meddiant ar gyfer gofalu am fabanod
- un set o ddillad
- dillad gwely

- un offeryn cerdd
- posteri ac ati
- un cawell adar.

## **Fframwaith Polisi Eiddo Carcharorion HMPPS 2022**

### **Trosglwyddo a rhyddhau**

- 1.8 Dim ond eitemau o fewn y lwfans rheoli cyfeintiol (ac eitemau sydd wedi'u heithrio ohono) ddylai fynd gyda charcharor wrth ei drosglwyddo. Ni ddylai pob bag bwyso mwy na 15kg a dylai fod wedi'i selio a'i sicrhau. Dylid gwirio cerdyn yr eiddo cyn ac ar ôl y trosglwyddiad gan y ddau sefydliad, a dylid gwirio'r bagiau yn erbyn y Cofnod Hebrwng Person.
- 1.9 Rhaid anfon eitemau dros ben i'r sefydliad newydd o fewn pedair wythnos i drosglwyddo'r carcharor. Y carchar sy'n anfon sy'n gyfrifol am gofnodi ac ariannu'r trosglwyddiad eiddo a rhaid iddo hysbysu'r carchar sy'n derbyn unwaith y bydd wedi'i anfon. Mae carcharorion hefyd yn gallu rhoi eiddo dros ben i garcharorion eraill, ei drosglwyddo i aelodau o'r teulu ar ymweliadau, neu ei storio'n lleol yn y carchar neu yn yr NDC.

### **Mae pryderon yn dangos llawer o fethiannau**

- 1.10 Ers mis Mai 2021, mae ein harolygon arolygu wedi cynnwys cwestiwn ynghylch a all carcharorion gael eu heiddo wedi'i storio yn brydlon, os oes angen. Mae dadansoddiad blynyddol yn dangos bod llai na chwarter yn nodi eu bod yn gallu cael mynediad ato'n brydlon. Mae'r ffigur isel hwn, ar draws sawl blwyddyn arolygu, yn tynnu sylw at broblem systemig.
- 1.11 Mewn adroddiad thematig yn 2024, manylodd y Bwrdd Monitro Annibynnol (IMB) ar bwysigrwydd delio'n effeithiol ag eiddo carcharorion, o fewn y carchar a phan gaiff rhywun ei ryddhau. Canfu y gallai hunan-niweidio a thrais gael eu sbarduno gan golli neu ddifrodi eiddo personol. Gall mynediad gwael at eu heiddo wedi'i storio arwain at rwystredigaethau'n cael eu cyfeirio at staff neu ymddygiad gwael gan y carcharor.
- 1.12 Rhaid i garcharorion gyflwyno cais ffurfiol i gael mynediad at eu heiddo sydd wedi'i storio. Yn ein papur prif ganfyddiadau 'Haws dweud na gwneud: datrys ceisiadau carcharorion', gwelsom fod rhwystredigaethau gyda'r broses, gan gynnwys oedi wrth ddelio â cheisiadau a chanfyddiadau gwael o degwch, yn effeithio ar y berthynas rhwng staff a charcharorion.
- 1.13 Eiddo carcharorion fu'r categori cwynion mwyaf cyffredin i gael ei ymchwilio gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf (PPO) yn gyson. Adroddodd bwletin dysgu gwersi 2025 y PPO ar ymchwiliadau i gwynion fod cwynion am eiddo personol yn cyfrif am 27% o'r cyfanswm yn ystod blwyddyn adroddiad blynyddol 2023–24.

- 1.14 Mae'r IMB a'r PPO ill dau hefyd wedi nodi y gall amrywiad mewn polisïau lleol neu restrau cyfleusterau waethygu teimladau o rwystredigaeth a dicter. Mewn dadansoddiad o 5,610 o gwynion am eiddo rhwng 2019 a 24, canfu'r PPO, pan gafodd carcharorion eu trosglwyddo i sefydliad newydd, fod eitemau a ganiatawyd yn flaenorol weithiau'n cael eu hatafaelu.
- 1.15 Mae eitemau sy'n bwysig i rai grwpiau lleiafrifol wedi'u heithrio rhag rheolaeth gyfeintiol, a gall hyn gyfrannu at deimladau o anghydraddoldeb. Gellir gweld yr anghysondebau mewn lwfansau rhwng grwpiau o garcharorion fel gwahaniaethu a ffafriaeth, a all effeithio ar lesiant carcharorion a'r berthynas rhwng staff a charcharorion.
- 1.16 Mae'r IMB wedi canfod, ar ôl cael eu rhyddhau, fod carcharorion yn aml yn sylweddoli bod eitemau gwerthfawr ar goll. Mae'r PPO hefyd yn derbyn cwynion bod dogfennau adnabod, ffonau, waledi ac allweddi yn cael eu colli yn ystod amser carcharorion yn y carchar.
- 1.17 Fe wnaethom gynnal adolygiad o'n hadroddiadau arolygu carchardai a gyhoeddwyd rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025. Fe wnaethom hefyd gwblhau dadansoddiad o ganfyddiadau ein harolwg carcharorion ar gyfer yr un cyfnod, a oedd yn cynnwys dadansoddiad ystadegol o ymatebion i gwestiynau caeedig a dadansoddiad thematig o'r sylwadau a wnaed mewn cwestiynau agored. Mae'r adran nesaf yn nodi ein canfyddiadau.

## Section 2 Canfyddiadau allweddol Arolygiaeth Carchardai EF


2.1 Tynnodd adroddiadau arolygu Arolygiaeth Carchardai EF ac ymatebion i arolygon carcharorion o 2024–25 sylw at broblemau parhaus o ran rheoli a hygyrchedd eiddo carcharorion ar draws sawl sefydliad. Achosodd hyn rwystredigaethau parhaus i garcharorion.

### Eiddo wrth gyrraedd

2.2 Dangosodd dadansoddiad o'r data a gasglwyd yn ein harolygon nad oedd digon o garcharorion wedi derbyn eu heiddo personol o fewn ychydig ddyddiau i gyrraedd y carchar. Mewn carchardai oedolion, dim ond 63% o garcharorion a ddywedodd eu bod wedi cael eu heiddo personol. Yn ogystal, roedd gwahaniaethau yn seiliedig ar y math o garchar: Dywedodd 93% o garcharorion mewn carchardai agored i ddynion eu bod wedi cael eu heiddo o fewn ychydig ddyddiau, ond dim ond 33% mewn carchardai diogelwch uchel i ddynion a ddywedodd yr un peth.

**Ffigur 1: Carcharorion mewn carchardai diogelwch uchel i ddynion oedd leiaf tebygol o adrodd eu bod wedi gallu cael eu heiddo personol o fewn yr ychydig ddyddiau cyntaf.**

Carchardai i oedolion yng Nghymru a Lloegr



Ffynhonnell: Data arolwg Carchardai EF 2024–25

2.3 Cyfrannodd cyfyngiadau cyfundrefnol, arferion rheoli risg ac adnoddau carchardai unigol at yr anghydraddoldeb hwn. Mae carchardai lleol yn wynebu heriau penodol ac yn aml mae carcharorion yn ei chael hi'n anodd cael eu heiddo o fewn yr ychydig ddyddiau cyntaf neu gael mynediad at eu heitemau sydd wedi'u storio. Mae symud carcharorion yn aml i mewn ac allan o'r carchardai hyn, sy'n derbyn unigolion yn uniongyrchol o'r llys, yn aml ar fyr rybudd, yn golygu bod systemau

storio eiddo dan straen cyson, ac mae eitemau coll neu oedi wrth brosesu wedi dod yn broblemau cyffredin.

- 2.4 Mewn carchardai diogelwch uchel, mae protocolau manylach yn ei gwneud yn ofynnol i eiddo personol gael ei chwilio a'i brosesu'n fwy trylwyr, a all olygu bod yn rhaid i garcharorion aros yn hirach i gael eu heiddo yn eu meddiant ar ôl iddynt gyrraedd.

Yn ystod ein harolygiad o Long Lartin, carchar diogelwch uchel sydd ond yn derbyn carcharorion a drosglwyddwyd o garchardai eraill, gwelsom fod arweinwyr wedi ymateb yn adeiladol i bryderon carcharorion ynghylch oedi wrth gael eu heiddo yn eu meddiant ac roeddent wedi dechrau datblygu ffyrdd o symleiddio'r broses.

- 2.5 Yn ein harolygiadau o garchardai agored, gwelsom gynnydd o ran nodi a gweithio i fynd i'r afael â gwraidd problemau eiddo wrth gyrraedd.

Ar ôl gweld cynnydd yn nifer y carcharorion oedd yn cyrraedd, roedd Kirkham wedi newid o drosglwyddiadau dan arweiniad contractwyr i ddefnyddio ei gerbydau cludo carchar ei hun, gan gasglu'r rhan fwyaf o garcharorion o'u carchar anfon. Lleihaodd hyn y risg o golli eiddo a'r amser a dreuliwyd yn aros iddo gyrraedd.

Yn Kirklevington Grange, proseswyd eiddo ar unwaith a chaniatawyd i garcharorion fynd ag eitemau a ganiateir gyda nhw i'w huned breswyl.

- 2.6 Dywedodd rhai carcharorion eu bod wedi aros hyd at dair wythnos i dderbyn eu heiddo.

'Mae'r dderbynfa'n cael trafferth yn barhaus i roi eu heiddo i garcharorion.' Yn bennaf oherwydd nad oeddent ar gael i sganio eiddo sy'n dod i mewn. Ond hefyd, oherwydd bod staff gweithredol yn cael eu hanfon i ffwrdd o'r dderbynfa. Yn rheolaidd mae carcharorion yn aros 10 i 21 diwrnod i dderbyn eiddo.'

Arolwg carcharorion, Garth, Tachwedd 2024

- 2.7 Yn aml, nodwyd yn ein hadroddiadau fod prinder staff a swyddogion derbynfa yn cael eu hanfon i fannau eraill i gyflawni dyletswyddau gweithredol yn gyfranwyr allweddol at oedi wrth roi eiddo neu roi mynediad i garcharorion i'w heiddo wedi'i storio.
- 2.8 Arweiniodd anghysondebau mewn polisïau eiddo ar draws gwahanol garchardai hefyd at ddryswch a phrofiadau anghyson i garcharorion. Mae adroddiadau am eiddo coll neu eiddo a gamreolir yn tynnu sylw at yr angen am well olrhain ac atebolrwydd. Er bod rhai carchardai – Garth yn enwedig – wedi casglu data perthnasol ar ôl-groniadau a

chwynion, a oedd yn gam cadarnhaol wrth olrhain y broblem, roedd ei ddefnydd i lywio gwelliannau yn anghyson.

'Y cyfyngiadau ar ddillad ac eiddo personol a gymhwysir wrth gyrraedd y carchar am y tro cyntaf o garchardai eraill. Mae'n ymddangos yn ormodol i ni "atafaelu" llyfrau, llythyrau, negeseuon e-bost ac ati gan newydd-ddyfodiaid pan fyddant wedi dod o garchardai eraill?'

Arolwg carcharorion, Humber, Ebrill 2024

Yn Lewes, gwelsom, yn dilyn adborth gan y grŵp ymgynghori â charcharorion a fforymau'r adenydd, fod staff ychwanegol wedi cael eu defnyddio i fynd i'r afael ag oedi wrth gasglu parseli ac eiddo, gan arwain at glirio'r rhan fwyaf o'r ôl-groniadau yn ystod wythnos yr arolygiad.

- 2.9 Mae data ein harolwg hefyd yn tynnu sylw at amrywiadau ym mhrofiadau gwahanol fathau o garcharorion. Yn y carchardai lleol i ddynion a arolygwyd yn 2024–25, derbyniodd llai o garcharorion yn y ddalfa a charcharorion heb eu dedfrydu eu heiddo personol yn eu dyddiau cyntaf (35%), o'i gymharu â charcharorion a ddedfrydwyd (45%).
- 2.10 Gyda mynediad cyfyngedig at arian neu eiddo, mae carcharorion yn y ddalfa yn aml yn troi at fenthyca gan eraill i ddiwallu anghenion sylfaenol, a gall hyn droi'n ddyled yn gyflym. Efallai na fydd carcharorion sydd i fod i fynychu'r llys yn gallu cael dillad nad ydynt yn ddillad carchar, fel dillad mwy trwsiadus, a gall mynychu'r llys mewn dillad a roddwyd gan y carchar danseilio eu hyder a'u hymdeimlad o urddas. Mae data ein harolwg yn dangos bod y rhai a oedd yn aros am achos llys neu ddedfrydu wedi wynebu heriau anghymesur wrth gael mynediad at eiddo hanfodol, a allai gyfrannu at fod yn fwy agored i niwed a gofid.
- 2.11 Roedd carcharorion oedd yn cyflawni dedfrydau amhenodol (ISP) – naill ai carchar er mwyn amddiffyn y cyhoedd (IPP) neu ddedfrydau oes – hefyd yn wynebu rhwystrau, gyda dim ond 58% yn dweud eu bod wedi cael eu heiddo yn eu dyddiau cyntaf, sy'n sylweddol is na charcharorion eraill a ddedfrydwyd (71%).
- 2.12 O'r 882 o garcharorion ISP a gwblhaodd yr arolwg yn 2024–25, roedd 31% yn cael eu cadw mewn carchardai diogelwch uchel. Mae'r rhain yn gweithredu o dan ddiogelwch llymach a all olygu ei bod yn cymryd mwy o amser i roi eiddo. Mae carcharorion ISP hefyd yn tueddu i brofi mwy o drosglwyddiadau rhwng carchardai, gan gynyddu'r risg o golli neu ohirio eiddo. Gall hyn gynyddu straen a thanseilio sefydlogrwydd, yn enwedig i'r rhai sydd eisoes yn ymdopi ag ansicrwydd eu dedfrydau.
- 2.13 Mae data'r arolwg hefyd yn tynnu sylw at wahaniaeth sylweddol o ran mynediad at eiddo i garcharorion sydd â gwendidau ychwanegol, yn enwedig y rhai a allai fod angen mwy o gymorth i lywio systemau

carchardai. Roedd y rhai a ddywedodd fod ganddynt anabledd yn llai tebygol o nodi eu bod wedi cael eu heiddo yn ystod y dyddiau cyntaf (59%) o'i gymharu â'r rhai nad oedd ganddynt anabledd (66%).

- 2.14 Yn aml mae oedi wrth brosesu cymhorthion anabledd yn y dderbynfa. Gall hyn arwain at garcharorion yn cael eu gadael heb offer am gyfnodau hir, gan effeithio ar eu gallu i lywio amgylchedd y carchar, cymryd rhan mewn gweithgareddau'r gyfundrefn, neu gyfathrebu'n effeithiol. Er enghraifft, efallai y bydd carcharor heb fynediad at ei sbectol yn ei chael hi'n anodd darllen dogfennau cyfreithiol, llenwi ffurflenni cais, neu gymryd rhan mewn rhaglenni addysg.

'Rydw i wedi bod yn aros dros dair wythnos am fy sbectol o'r dderbynfa, mae bellach yn dod yn broblem iechyd gan fod fy ngolwg yn aneglur, ac rydw i'n cael cur pen. Rydw i wedi codi'r mater hwn, ond does dim wedi'i wneud.'

Arolwg carcharorion, Caerwynt, 2024


- 2.15 Yn ogystal, ni all meddyginiaeth ar bresgripsiwn a ddygir i'r carchar gan newydd-ddyfodiaid fynd trwy'r system ddiogelwch ac fel arfer caiff ei dynnu i ffwrdd, gan aros am asesiad ac ailgyhoeddi gan wasanaethau gofal iechyd yn y carchar. Rhaid gwirio dyfeisiau cymorth symudedd fel ffyn cerdded am resymau diogelwch a gellir eu disodli â dewisiadau eraill a roddir gan y carchar. Er eu bod yn angenrheidiol ar gyfer diogelwch, gall y prosesau hyn fod yn ddryslyd ac achosi gofid, yn enwedig os yw amnewidiadau'n cael eu gohirio, yn anaddas neu'n anghyfarwydd. I garcharorion ag anableddau, gall colli neu amnewid cymhorthion hanfodol dros dro effeithio'n sylweddol ar eu hannibyniaeth a'u llesiant.

## **Mynediad at eiddo sydd wedi'i storio**

- 2.16 Mae mynediad at eiddo sydd wedi'i storio yn anghyson yn yr un modd ar draws carchardai. Dim ond 22% o garcharorion a nododd eu bod yn gallu cael mynediad at eu heitemau wedi'u storio yn brydlon pan oedd angen. Roedd y ffigur hwn hefyd yn amrywio'n fawr yn ôl math o garchar: Nododd 54% o garcharorion mewn carchardai agored eu bod wedi cael mynediad amserol at eiddo wedi'i storio, tra mai dim ond 10% oedd hyn mewn carchardai hyfforddiant categori B.

**Ffigur 2: Carcharorion mewn carchardai hyfforddiant categori B i ddynion oedd leiaf tebygol o nodi eu bod yn gallu cael gafael ar eiddo personol yn brydlon pan oedd ei angen.**

Carchardai i oedolion yng Nghymru a Lloegr



Ffynhonnell: Data arolwg Carchardai EF 2024–25

- 2.17 Mewn sefydliadau diogelwch uchel, mae eiddo yn aml yn cael ei gadw mewn manau storio canolog a dim ond trwy geisiadau ffurfiol y gellir cael mynediad ato, yn amodol ar oruchwyliaeth staff ac argaeledd. Yn y cyfamser, mae carchardai agored yn gweithredu cyfundrefn fwy hamddenol, lle gall carcharorion gael mwy o ymreolaeth a mynediad mwy rheolaidd at eu heiddo wedi'i storio.
- 2.18 Gall prinder staff effeithio ar nifer y personél sydd ar gael yn y dderbynfa i reoli eiddo sydd wedi'i storio a gall hefyd gael effaith ehangach ar drefn ddyddiol carcharorion. Efallai y bydd gan garcharorion lai o amser y tu allan i'r gell os nad oes digon o swyddogion i'w goruchwyllo pan fyddant wedi'u datgloi, sy'n cyfyngu ar eu cyfle i gael eu cludo i'r dderbynfa i gael mynediad at eu heiddo wedi'i storio.

## Yr effaith

- 2.19 Gall y problemau hyn arwain at nifer uchel o geisiadau a chwynion, sy'n dynodi rhwystredigaeth systemig ymhlith carcharorion. Canfu dadansoddiad o sylwadau ysgrifenedig yr arolwg fod carcharorion yn aml yn codi pryderon ynghylch dillad ac eitemau sy'n gysylltiedig ag adloniant fel DVDs, CDs a chonsolau gemau. Roedd y cwynion yn cynnwys colli eiddo penodol, oedi wrth dderbyn dillad wrth gyrraedd, cyfyngiadau ar barseli o'r cartref a dillad tymhorol annigonol.
- 2.20 Soniodd sylwadau hefyd am fethiant staff i ddilyn ymholiadau yn ymwneud ag eiddo a ffafriaeth ganfyddedig yn y ffordd yr oedd materion eiddo yn cael eu datrys.

'Stopiwch reolau diogelwch nonsens sy'n ein hatal rhag cael eitemau y caniateir i ni eu cael yn ein meddiant, ond nad ydym yn gallu eu cael oherwydd nad yw eich wyneb yn ffitio, tra bod carcharorion eraill yn cael yr eitemau hynny.'

Arolwg carcharorion, Rye Hill, Tachwedd 2024

- 2.21 Disgrifiodd carcharorion yr effaith a gafodd y materion hyn ar eu hymddygiad a'u perthynas â staff.

'Rydw i wedi bod yn aros am eiddo a gymerwyd o fy nghell gan staff ers pedwar mis, gan gynnwys dogfennau cyfreithiol maen nhw'n torri ac nid ydyn nhw'n ceisio datrys y problemau, sy'n creu mwy o ddieter sy'n arwain at anghydfodau'n aml ar yr iard ymarfer corff.'

Arolwg carcharorion, Deerbolt, Mawrth 2025

- 2.22 Cyfrannodd yr anallu i brynu dillad oherwydd cost, ynghyd ag argaeledd cyfyngedig eitemau tymhorol ac o'r maint priodol, at ymdeimlad o annhegwch, anghydraddoldeb a llesiant meddyliol gwael.

'Gadewch i ni gael dillad wedi'u hanfon i mewn o gartref oherwydd nid yw pawb yn gallu fforddio prynu dillad newydd o'u cyfrif carchar. Mae gan rai carcharorion ddillad gartref sydd ag ystyr sentimental iddyn nhw, p'un ai y cawson nhw eu prynu gan rywun annwyl neu aelod o'r teulu neu ffrind a fu farw, neu hyd yn oed ddillad sydd ag atgofion da ynghlwm wrthyn nhw.'

Arolwg carcharorion, Long Lartin, Ionawr 2025

- 2.23 Gall colli neu fynediad cyfyngedig at eitemau fel llyfrau ffôn ei gwneud hi'n anodd i garcharorion gysylltu â'u teuluoedd. Yn yr un modd, gall diffyg mynediad at gardiau banc rwystro gallu carcharorion i reoli eu harian, gan gynnwys canslo debydau uniongyrchol a thanysgrifiadau a allai barhau i gael eu cymryd o'u cyfrifon yn ystod eu dedfryd. Gall hyn olygu bod carcharorion yn cronni dyled neu'n colli arian yn ddiangen, a all fod yn ofidus iawn a gall effeithio ar eu gallu i gael mynediad at lety neu gymorth ariannol ar ôl cael eu rhyddhau.

'Mae'r dderbynfa wedi colli fy ffôn, fy ngherdyn banc a fy llyfr cyfeiriadau.'

Arolwg carcharorion, Hull, Medi 2024

'Mynediad haws at fy manylion banc rydw i wedi bod yn gofyn amdany'n nhw ers dau fis a mynediad at fy ffôn hefyd i roi PIN arno h.y. teulu/frindiau.'

Arolwg carcharorion, Forest Bank, Mawrth 2025

- 2.24 Canfu ein harolygiadau o ddalfeydd llys yn 2024–25 fod rhai carcharorion wedi mynychu'r llys heb eu heitemau gwerthfawr fel allweddî tŷ, cardiau banc neu ddogfennau adnabod personol eraill. Roedd hyn yn golygu nad oedd y rhai a gafodd eu rhyddhau weithiau'n gallu cael mynediad at eu llety a'u cyfrifon banc.

## **Crynodeb**

- 2.25 At ei gilydd, er gwaethaf ymyriadau wedi'u targedu mewn safleoedd unigol, mae adroddiadau arolygu a data arolygon o 2024–25 yn awgrymu bod rhwystrau systemig. Mae'r canfyddiadau yn y papur hwn yn tynnu sylw at rai o'r rhwystrau parhaus i fynediad at eiddo ar draws yr ystâd carchardai, sy'n effeithio'n arbennig ar garcharorion heb eu dedfrydu, y rhai mewn lleoliadau diogelwch uchel, carcharorion sy'n ystyried bod ganddynt anabledd neu broblem iechyd meddwl, a'r rhai sydd wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol. Mae'r materion hyn yn parhau i danseilio llesiant carcharorion ac ymddiriedaeth yn y system.

## Appendix I Methodoleg

Mae'r papur canfyddiadau hwn yn tynnu ar dystiolaeth o 38 o arolygiadau a gyhoeddwyd yn ystod cyfnod yr adroddiad blynyddol o 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025. Fel rhan o sail dystiolaeth Arolygiaeth Carchardai EF, cynhelir arolwg cynrychioliadol o garcharorion ar ddechrau pob arolygiad. Mae'r holiadur yn cynnwys cwestiynau strwythuredig sy'n hwyluso dadansoddiad meintiol, gan alluogi cymharu grwpiau o fewn y sampl, a chwestiynau agored ar y diwedd sy'n caniatáu i garcharorion fynegi yn eu geiriau eu hunain yr hyn y maent yn ei gael yn fwyaf cadarnhaol a negyddol am y carchar.

Cynhaliwyd dadansoddiad ar 6,281 o ymatebion o'r carchardai oedolion dynion a menywod a arolygwyd. Cynhaliwyd dadansoddiad cymharol a gymharodd ymatebion carcharorion a oedd mewn carchardai â gwahanol swyddogaethau a'u profiad gydag eiddo a oedd wedi'i storio. Cymharwyd grwpiau eraill hefyd, a phrofwyd y gwahaniaethau am arwyddocâd ystadegol. Drwy gydol yr adroddiad rydym ond yn cyfeirio at gymariaethau rhwng y ddau grŵp pan fydd y rhain yn ystadegol arwyddocaol. Mae'r lefel arwyddocâd wedi'i gosod ar 0.01, sy'n golygu mai dim ond 1% o bosibilrwydd sydd bod y gwahaniaeth yn y canlyniadau oherwydd siawns.

Cynhaliwyd dadansoddiad thematig o ymatebion y carcharorion i'r cwestiynau agored ar ddiwedd yr holiadur hefyd. Adolygwyd yr holl sylwadau perthnasol yn systematig gan ymchwilydd, a nodwyd themâu.

Cynhaliwyd y prosiect hwn yn unol ag egwyddorion moesegol Arolygiaeth Carchardai EF ar gyfer gweithgareddau ymchwil: [Ethical principles for research – HM Inspectorate of Prisons](#)

## Appendix II Cyfeiriadau

Arolygiaeth Carchardai EF (2025) 'Haws dweud na gwneud: datrys ceisiadau carcharorion'. Ar gael yn: [Haws dweud na gwneud: datrys ceisiadau carcharorion – HM Inspectorate of Prisons](#)

Arolygiaeth Carchardai EF (2023) 'Disgwyliadau: Meini prawf ar gyfer asesu'r driniaeth a'r amodau ar gyfer dynion yn y carchar'. Ar gael yn: <https://hmiprisons.justiceinspectors.gov.uk/expectations/>

Arolygiaeth Carchardai EF (2025) 'Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Carchardai EF ar gyfer Cymru a Lloegr 2024-25'. Ar gael yn: [Adroddiad Blynyddol 2024-25 – Arolygiaeth Carchardai EF](#)

Bwrdd Monitro Annibynnol (2024) 'How property loss impacts prisoners: A thematic monitoring report'. Ar gael yn: <https://imb.org.uk/news/chaos-in-the-crisis-the-damaging-loss-of-prisoners-personal-property/>

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (2019) 'Incentives Policy Framework'. Ar gael yn: [Incentives Policy Framework - GOV.UK](#)

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (2022) 'Prisoners' Property Framework'. Ar gael yn: [Prisoners' Property Policy Framework - GOV.UK](#)

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (2022) 'Searching Policy Framework'. Ar gael yn: [Searching Policy Framework - GOV.UK](#)

Yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf (2025) 'Complaints Investigations Learning Lessons Bulletin Issue 11: Property complaints'. Ar gael yn: [Complaints Investigations Learning Lessons Bulletin Issue 11: Property complaints – Prisons and Probation Ombudsman](#)

Ombwdsmon Carchardai a Phrawf (2025) 'Policy into practice: Handling of property complaints'. Ar gael yn: [Policy into Practice: Handling of property complaints – Prisons and Probation Ombudsman](#)

Senedd y DU (1999) 'The Prison Rules 1999'. Ar gael yn: [The Prison Rules 1999](#)